# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

28 Medi 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Medi, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yr wyf yn gofyn am wybodaeth am yr holl gostau ariannol cysylltiedig ag ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fynediad i ddŵr rhwng 1 Mai 2009 a 31 Gorffennaf 2010 gan gynnwys yr holl gostau cyfreithiol, digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, manylion lleoliadau a dyddiadau digwyddiadau o'r fath a'r dulliau o gasglu tystiolaeth. Gofynnaf am gopïau o'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd randdeiliaid a'r Pwyllgor Deisebau, dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd, rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol a'r cofnodion.*

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau i'w weld isod.

Ym mis Mehefin 2010, lansiodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ei adroddiad yn dilyn ei Ymchwiliad i ddŵr mewndirol yng Nghymru. Mae'r 'Adroddiad' yn rhoi manylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd i gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

### i. Costau ariannol cysylltiedig â'r ymchwiliad

Yn y tabl isod, mae'r costau cysylltiedig â lansio'r adroddiad yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Caerdydd ar 16 Mehefin 2010.

| Eitem | Cost |
|---|---|
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | £22.91 |
| Costau teithio a chynhaliaeth Aelodau'r Cynulliad | £22.63 |
| Llogi'r Ganolfan | £52.88 |
| **Cyfanswm** | **£98.42** |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Nid oedd unrhyw gostau cyfreithiol gan mai Gwasanaeth Cyfreithiol mewnol y Cynulliad oedd yn gyfrifol am roi cyngor cyfreithiol.

**ii. Dulliau o gasglu tystiolaeth**

Gwahoddodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd randdeiliaid i gyflwyno clipiau fideo vox pops (cyfres o gyfweliadau byr) ar y dyddiadau ac yn y lleoliadau a ganlyn:

- dydd Gwener 20 Tachwedd 2009 - Gwesty Gwydyr, Ffordd Caergybi, Betws y Coed
- dydd Gwener 20 Tachwedd 2009 – Sgwâr y Frenhines, Wrecsam
- dydd Sadwrn 21 Tachwedd 2009 – Sgwâr Guild Hall, Caerfyrddin
- dydd Sadwrn 21 Tachwedd 2009 – maes parcio Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful
- dydd Gwener 20 Tachwedd 2009 – Gwesty Gwydyr

Ym mharagraffau 29-33 yn yr adroddiad, mae rhagor o wybodaeth am y modd y casglwyd y dystiolaeth.

**iii. Cyfarfodydd y Pwyllgor – dyddiadau, lleoliadau, y rhai a oedd yn bresennol**

Ar 16 Mehefin 2010, lansiodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ei adroddiad (gweler y linc isod) yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Caerdydd. Roedd y cyrff a ganlyn yn bresennol:

- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
- NFU Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Canŵ Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru
- Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy
- Open Canoe Association
- Y Gynghrair Cefn Gwlad
- Dyfrffyrdd Prydain
- Dŵr Cymru
- Cymdeithas Genweirwyr Eogiaid a Brithyll Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mae rhestr lawn o'r dystiolaeth a gasglwyd i'w chael yn atodiad A (tudalennau 33-63) yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor ac enwau'r rhai a oedd yn bresennol ynddynt.

Sylwch nad yw rhai o'r hyperlincs yn yr adroddiad yn gweithio erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r dogfennau dan sylw ar gael ar wefan y Cynulliad a gallwch chwilio amdanynt a'u hidlo os ewch i: http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-third-assembly/3-committees/Pages/Committees.aspx?category=SC

Mae cofnodion, trawsgrifiadau a phapurau'r Pwyllgor wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a gasglwyd wedi'i chyhoeddi ar dudalen gwe yr Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.  Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF